**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Llyr.Gruffydd@senedd.wales

17 Rhagfyr 2021

Annwyl Llyr,

**Rheoliadau Rhestrau Gwledig Cymeradwy (Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 - DEFRA/AH/062**

Mae'r Offeryn Statudol uchod yn ofynnol i ganiatáu mewnforio cynhyrchion dofednod a dofednod i Brydain Fawr ailddechrau o rai rhanbarthau o Wcrain a'r cyfan o Awstralia yn dilyn rheolaeth lwyddiannus ar achosion o ffliw adar yn y gwledydd hynny.

Gwneir y Rheoliadau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer pwerau a roddwyd gan Reoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Swyddogaethau Deddfwriaethol) a Milfeddygon (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/1225), yn benodol, rheoliad 7.

Maent yn diwygio Atodiad 1 i Reoliad y Comisiwn a gedwir (EC) Rhif 798/2008 sy'n gosod rhestr o drydydd gwledydd, tiriogaethau, parthau neu compartmentau y gellir mewnforio dofednod a chynhyrchion dofednod ohonynt a'u cludo drwy Brydain Fawr a'r gofynion ardystio milfeddygol sy'n gymwys i allforio'r nwyddau hynny. Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio rhai dyddiadau 'cau' ac 'agor' sy'n nodi'r cyfnodau pan fydd allforion o ranbarthau yr effeithir arnynt naill ai'n cael eu gwahardd neu eu caniatáu, gan adlewyrchu natur ddeinamig clefydau.

Ni chynhyrchwyd asesiad effaith ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir unrhyw effaith sylweddol ar y sector preifat, gwirfoddol na chyhoeddus, neu ddim effaith sylweddol. Mae'r offeryn hwn yn ei hanfod yn caniatáu i fasnach ailddechrau o ardaloedd yr effeithir arnynt dros dro gan ffliw adar, yn unol â'r polisi presennol y cytunwyd arno rhwng holl lywodraethau Prydain Fawr.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod ichi fy mod yn rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud yr offeryn statudol hwn mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig, sydd i'w weld yn:Rheoliadau Rhestrau Gwledig Cymeradwy (Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid) (Diwygio) (Rhif 2) 2021. Ni fu'n bosibl yn yr achos hwn roi rhybudd ymlaen llaw o'm bwriad i gydsynio, yn unol â'r ymrwymiad diweddar a roddwyd gan y Prif Weinidog, oherwydd yr amserlenni sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r OS brys hwn.

Gan fod Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cyffredin y DU y cytunwyd y polisi drwyddo ac oherwydd bod nwyddau o'r math hwn yn symud yn rhwydd o fewn Prydain Fawr, nid oes rheswm dros bolisi gwahanol rhwng gwledydd Prydain Fawr. At hynny, nid yw'r Rheoliadau hyn yn diwygio unrhyw Offeryn Cymreig a wneir gan Weinidogion Cymru.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros y Cyfansoddiad, a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**